



Gwasanaeth Democraidd
Democratic Service
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

PWYLLGOR IAITH
LANGUAGE COMMITTEE

10.30AM, DYDD IAU, 10 HYDREF, 2013

10.30AM, THURSDAY, 10 OCTOBER, 2013

Lleoliad / Location

***SIAMBR HYWEL DDA, SWYDDFA'R CYNGOR,
CAERNARFON**

*Nodwch y lleoliad ogydd / *Please note venue

Pwynt Cyswllt / Contact Point

EIRIAN ROBERTS

(01286) 679018

maireirianroberts@gwynedd.gov.uk

(DOSBARTHWYD / DISTRIBUTED 2/10/13)

PWYLLGOR IAITH LANGUAGE COMMITTEE

AELODAETH/MEMBERSHIP (15)

Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr/Councillors

Craig ab Iago

Elwyn Edwards

Alan Jones Evans

Dyfrig Jones

Liz Saville Roberts

Mair Rowlands

Gareth Thomas

Mandy Williams-Davies

Annibynnol/Independent (4)

Y Cynghorwyr/Councillors

Tom Ellis

Eric M. Jones

Eirwyn Williams

Elfed Williams

Llais Gwynedd (3)

Y Cynghorwyr/Councillors

Gweno Glyn

Alwyn Gruffydd

Gruffydd Williams

Aelodau Ex-officio/Ex-officio Members

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor / Council Chairman and Vice-chairman

Aelod Arall a Wahoddir / Other Invited Member

Y Cynghorydd / Councillor Ioan Thomas – Aelod Cabinet Gofal Cwsmer / Cabinet Member Customer Care

RHAGLEN

1. IS-GADEIRYDD

Ethol Is-gadeirydd am 2013/14.

2. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

4. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

5. COFNODION

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 27 Mehefin, 2013 fel rhai cywir (copi ynghlwm).

6. RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR

Ystyried adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith (copi ynghlwm).

7. YMATEB COMISIYNYDD Y GYMRAEG I ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2012-2013

Ystyried adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith (copi ynghlwm).

8. CYNLLUNIO A'R IAITH GYMRAEG

Ystyried adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio (copi ynghlwm).

9. CWYNIION IAITH

Ystyried adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith (copi ynghlwm).

AGENDA

1. VICE-CHAIRMAN

To elect a Vice-Chairman for 2013/14.

2. APOLOGIES

To receive apologies for absence.

3. DECLARATION OF PERSONAL INTEREST

To receive any declaration of personal interest.

4. URGENT BUSINESS

To note any items that are a matter of urgency in the view of the Chairman for consideration.

5. MINUTES

The Chairman shall propose that the minutes of the last meeting of this committee held on 27 June, 2013 be signed as a true record (copy attached).

6. THE COMMITTEE'S WORK PROGRAMME

To consider the report of the Equality and Language Officer (copy attached).

7. WELSH LANGUAGE COMMISSIONER'S RESPONSE TO GWYNEDD COUNCIL'S ANNUAL LANGUAGE MONITORING REPORT 2012/13

To consider the report of the Equality and Language Officer (copy attached).

8. PLANNING AND THE WELSH LANGUAGE

To consider the report of the Head of the Regulatory Department (copy attached).

9. LANGUAGE COMPLAINTS

To consider the report of the Equality and Language Officer (copy attached).

PWYLLGOR IAITH, 27.06.13

Yn bresennol: Y Cyngorydd Gweno Glyn (penodwyd i lywyddu yn absenoldeb y Cadeirydd).

Y Cyngorwyr: Elwyn Edwards, Tom Ellis, Alan Jones Evans, Eric Merfyn Jones, Mair Rowlands, Gareth Thomas, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gruffydd Williams a Mandy Williams-Davies.

Swyddogion: Sion Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

Aelod Ex-officio: Y Cyngorydd Huw Edwards (Cadeirydd y Cyngor).

Sylwedydd: Y Cyngorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet – Gofal Cwsmer).

Ymddiheuriadau: Y Cyngorwyr Alwyn Gruffydd, Dyfrig Jones a Liz Saville Roberts.

1. ETHOL CADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol y Cyngorydd Liz Saville Roberts yn gadeirydd y pwyllgor hwn am 2013/14.

Yn absenoldeb y Cadeirydd, penodwyd y Cyngorydd Gweno Glyn i lywyddu'r cyfarfod.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Gohiriwyd yr eitem hon hyd y cyfarfod nesaf oherwydd, petai'r pwyllgor yn dymuno ail-ethol y Cyngorydd Gweno Glyn i'r is-gadair, ni fyddai'n bosib' gwneud hynny yn y cyfarfod hwn, gan na chaiff person lywyddu dros ei etholiad ei hun.

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 16 Ebrill, 2013 fel rhai cywir, yn amodol ar nodi bod yna gonsensws i estyn gwahoddiad ffurfiol i'r Aelod Cabinet Gofal Cwsmer i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Iaith.

5. ADRODDIAD MONITRO Y CYNLLUN IAITH GYMRAEG 2012/13

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith yn gofyn i'r pwyllgor am eu sylwadau ac iddynt gymeradwyo Adroddiad Monitro y Cynllun Iaith Gymraeg 2012/13 cyn ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg.

Nodwyd y dylid cywiro'r pwynt bwled cyntaf yn y rhagair i nodi mai yng Ngorffennaf 2012, yn hytrach na 2013, y cyfarfu'r grŵp tasg a ffurfiwyd i lunio sylwadau ar y Safonau Iaith drafft.

Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd dilyn yr amcanion er mwyn gweld bod yna ddiweddariad.

Nodwyd ei bod yn galonogol gweld bod staff y Cyngor yn fodlon cyflwyno cwynion iaith mewnol gan fod hynny'n fanteisiol o safbwynt amlygu gwendidau a gwella trefniadau'r Cyngor o ran y Gymraeg.

Gan gyfeirio at Amcan CH2 – gofynnwyd am weld cynnwys y llythyr sy'n cael ei anfon at y sawl sy'n gwneud cais i newid enw tŷ o'r Gymraeg. Cytunodd y Rheolwr Cydraddoldeb ac Iaith i holi am gopi o'r llythyr.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad a'i gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg.

6. CYNLLUN IAITH GYMRAEG CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith yn gofyn i'r pwyllgor gymeradwyo ymestyn cyfnod Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor hyd nes y daw'r safonau iaith i rym.

Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd sicrhau na cheir gostyngiad yn safonau uchel y Cyngor o ran y Gymraeg o ganlyniad i gyflwyno'r safonau newydd.

PENDERFYNWYD cymeradwyo ymestyn cyfnod Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor hyd nes y daw'r safonau iaith i rym.

7. RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR IAITH

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith yn gofyn i'r pwyllgor roi ystyriaeth i gyfres o faterion y gellid eu rhoi ar raglen waith y pwyllgor, gan gynnwys materion a godwyd yn y cyfarfod diwethaf, gan hefyd awgrymu unrhyw faterion eraill yr hoffent eu cynnwys ar y rhaglen waith.

Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd sicrhau nad yw'r un materion yn codi dro ar ôl tro, flwyddyn ar ôl blwyddyn, a bod y pwyllgor yn llwyddo i ddatrys y problemau.

Holwyd sut y bwriedid llenwi'r bwlch yn sgil secondiad y Swyddog Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg i swydd arall am flwyddyn. Nododd yr Aelod Cabinet Gofal Cwsmer fod yna fwrriad i swyddog neu swyddogion gymryd ei lle ac y byddai'n diweddarau'r aelodau pan fyddai'r sefyllfa'n fwy eglur. Pwysleisiodd hefyd na ellid gadael i'r safonau sy'n bodoli yn y Cyngor eisoes ddirywio o ganlyniad i golli'r swyddog presennol am flwyddyn.

Awgrymwyd bod y materion ar y rhaglen waith ddrafft yn cael eu gosod mewn trefn flaenoriaeth. Atebodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith y byddai'n trafod ymhellach gyda'r Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith ac yn cyflwyno adroddiad i'r cyfarfod nesaf yn awgrymu trefn flaenoriaeth ar gyfer yr eitemau.

Awgrymwyd y gallai'r pwyllgor edrych ar sut mae gofynion sgiliau iaith swydd yn cael eu gosod, beth yw'r amodau a sut mae hynny'n cael ei fonitro ayb.

Nodwyd bod angen edrych hefyd ar y gweithwyr hynny sy'n gallu siarad Cymraeg, ond sydd, oherwydd diffyg hyder, yn dewis siarad Saesneg gyda phobl sy'n siarad Cymraeg, gan edrych hefyd ar fagu hyder y staff o safbwynt llythyru ac e-bostio drwy gyfrwng y Gymraeg.

PENDERFYNWYD

- (a) **Gosod y materion a ganlyn ar y rhaglen waith gan adael y drws yn agored i'r aelodau ychwanegu materion newydd ar unrhyw adeg:-**
- **Adroddiad Monitro'r Cynllun Iaith**
 - **Ymateb y Comisiynydd Iaith i'r Adroddiad Monitro**
 - **Cwynion Iaith**
 - **Ymateb i ymgynghoriad ar y Safonau Iaith arfaethedig**
 - **Datblygu Safonau Iaith Cyngor Gwynedd**
 - **Defnydd o'r Gymraeg gan drydydd parti sy'n defnyddio asedau'r cyngor**
 - **Sgiliau iaith staff (amodau ynglŷn â dysgu'r Gymraeg ayb)**
 - **Edrych ar y defnydd o'r Gymraeg oddi fewn i adrannau'r Cyngor yn eu tro**
 - **Defnydd o'r Gymraeg yng Nghanolfannau Hamdden Bangor, Tywyn a Dolgellau**
 - **Canolfannau Iaith - adroddiad cynnydd**
 - **Materion i'w hystyried gan y Pwyllgor yn ei rôl ymgynghorol ar strategaethau hyrwyddo'r Iaith Gymraeg o fewn y sir**
 - **Edrych ar sut mae gofynion sgiliau iaith swyddi'n cael eu gosod, beth yw'r amodau a sut mae hynny'n cael ei fonitro ayb, gan edrych hefyd ar sut i fagu hyder swyddogion yn eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith bob dydd.**
- (b) **Gofyn i'r Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith gyflwyno adroddiad i'r cyfarfod nesaf yn awgrymu trefn flaenoriaeth ar gyfer yr eitemau hyn.**

8. CWYNION IAITH

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith yn manylu ar gŵyn iaith a ddaeth i law yn erbyn y Cyngor.

PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 11.05am.

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	HYDREF 10 2013
TEITL:	RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR
AWDUR:	SWYDDOG CYDRADDOLDEB AC IAITH
PWRPAS YR ADRODDIAD:	CYMERADWYO'R RHAGLEN, GAN YCHWANEGU YN ÔL YR ANGEN

1. Cefndir

- 1.1. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Iaith ar Fehefin 27, trafodwyd Rhaglen Waith y Pwyllgor dros y misoedd nesaf. Gweler isod raglen ddrafft a gytunwyd gan Gadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor.
- 1.2. Yn amlwg, bydd mwy o eitemau'n codi o gyfarfod i gyfarfod, ac felly amlinelliad sylfaenol a nodir isod.

2. Rhaglen Ddrafft 2013-2014

10/10/13	15/01/14	04/04/14	Mehefin 14
* Ymateb y Comisiynydd i'r Adroddiad Monitro * Cynllunio a'r Iaith Gymraeg * Cwynion	* Diweddariad ar Safonau iaith (os yn amserol) * Cyflwyniad Adrannol-Adnoddau Dynol (hyrwyddo defnydd o'r iaith) * Cyflwyniad gan Hunaniaith * Cwynion	* Diweddariad Pencampwyr Iaith a defnydd o'r iaith yng Nghanolfannau Hamdden Bangor, Tywyn a Dolgellau (Cyflwyniad Adrannol?) * Canolfannau iaith * Cwynion	* Adroddiad Monitro Blynyddol * Cyflwyniad Adrannol-Rheoleiddio * 3ydd parti sy'n defnyddio asedau'r Cyngor * Cwynion

3. Blaenoriaethau'r Rhaglen Waith

- 3.1. Rhoddir blaenoriaeth i unrhyw ddatblygiadau sy'n ymwneud a sefydlu'r Safonau Iaith ac ymateb y Cyngor i'r gofynion
- 3.2. Byddwn yn adrodd yn flynyddol i'r Comisiynydd ar ein cydymffurfiaeth, ac yn trafod unrhyw adborth gan swyddfa'r Comisiynydd. Ar hyn o bryd, golyga hyn gynhyrchu Adroddiad

Monitro cyn diwedd mid Mehefin a thrafod sylwadau'r Comisiynydd yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

- 3.3. Yn unol â'r gofynion monitro, byddwn yn cyflwyno'r cwynion ynglŷn â methu cydymffurfio a'r Cynllun Iaith (a maes o law, y Safonau) ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Iaith.
- 3.4. Dros y misoedd nesaf, byddwn yn derbyn adroddiad gan bob Adran yn eu tro ar sut y maent yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a sicrhau cydymffurfiaeth.
- 3.5. Yn amlwg, bydd y Pwyllgor yn gallu ychwanegu materion newydd ar gyfer y Rhaglen Waith ar unrhyw adeg.

4. Argymhelliad

- 4.1. Cymeradwyo'r Rhaglen Waith, gan ychwanegu'n ôl yr angen.

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	HYDREF 10 2013
TEITL:	YMATEB COMISIYNYDD Y GYMRAEG I ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2012-13
AWDUR:	SWYDDOG CYDRADDOLDEB AC IAITH
PWRPAS YR ADRODDIAD:	CYFLWYNO'R YMATEB A'N SYLWADAU I'R PWYLLGOR

1. ADRODDIAD MONITRO IAITH

- 1.1. Ymhellach i'n Hadroddiad Monitro Iaith flynyddol, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Iaith ym mis Mehefin, atodir sylwadau Comisiynydd y Gymraeg ar yr adroddiad.
- 1.2. Roedd gofyn i ni ymateb i rai o'r ceisiadau yma am wybodaeth o fewn 20 diwrnod gwaith, ac mi anfonwyd ein hymateb o fewn yr amserlen yma

2. YMATEB I SYLWADAU COMISIYNYDD Y GYMRAEG

- 2.1. Gweler fod y Comisiynydd yn gofyn am wybodaeth ysgrifenedig ac ar lafar, a bydd rhai ymholiadau'n derbyn sylw penodol fel rhan o'n cyfarfod adborth. I bwrpas yr Adroddiad yma, ac er gwybodaeth i Aelodau'r Pwyllgor Iaith, cyflwynir ymateb ysgrifenedig i bob un o'r materion a godwyd gan y Comisiynydd.

3. ARGYMHELLION

- 3.1. Derbyn ymateb Comisiynydd y Gymraeg a'n hymateb i'r cais am wybodaeth.

YMATEB CYNGOR GWYNEDD I SYLWADAU COMISIYNYDD Y GYMRAEG AR EIN HADRODDIAD BLYNYDDOL 2012/13

Cydymffurfio a'r Cynllun Iaith Gymraeg

SYLWADAU'R COMISIYNYDD	DULL YMATEB	YMATEB CYNGOR GWYNEDD
Darparwch gopi o adroddiad [adolygu gwasanaeth Derwen] pan fydd wedi ei gwblhau, os gwelwch yn dda	Darparu gwybodaeth bellach i Gomisiynydd y Gymraeg	Mae'r mater ar fin mynd gerbron Bwrdd Rheoli Derwen, ac anfonir copi o'r adroddiad i'r Comisiynydd cyn gynted ac mae'n barod
Darparwch gopi o un o'r adroddiadau [monitro cydymffurfiaeth y Penaethiaid Gwasanaeth], os gwelwch yn dda	Darparu gwybodaeth bellach i Gomisiynydd y Gymraeg	<p>Cysylltir â bob Adran fel rhan o'r broses monitro iaith, ond nid oes unrhyw dempled na ffurf safonol ar gyfer ymateb, ac unol a'r gofynion monitro, mae'r ymateb yn helaethach gan rhai Adrannau na'i gilydd.</p> <p>Bydd o broses o dderbyn adborth ar gydymffurfiaeth yn cael ei ffurfioli o fis Hydref 2013 ymlaen, yn dilyn penderfyniad gan y Pwyllgor Iaith i dderbyn un Adroddiad ffurfiol i'r Pwyllgor gan bob Adran yn eu tro. Byddwn yn adrodd yn llawn ar y broses yma yn ein Hadroddiad Blynyddol 2013/14</p>

SYLWADAU'R COMISIYNYDD	DULL YMATEB	YMATEB CYNGOR GWYNEDD
<p>Eglurwch pam na chynhaliwyd yr hapwiriad [annibynnol o gydymffurfiad y Cyngor a'r Cynllun Iaith yn 2012], os gwelwch yn dda. Ydi'r Cyngor wedi cymryd camau i drefnu hyn yn 2013?</p>	<p>Darparu gwybodaeth bellach i Gomisiynydd y Gymraeg</p>	<p>Yn dilyn hapwiriadau blaenorol, ac yn seiliedig ar fonitro mewnol a chwynion, teimlwn fod gennym wybodaeth gadarn ynglŷn â'r meysydd risg, ac mae'r flaenoriaeth bellach yw ceisio cyfarch y gwendidau yma.</p> <p>Yn hytrach na hapwiriadau cyffredinol, mae'r Cyngor wedi comisiynu gwaith mewn meysydd penodol er mwyn canfod unrhyw broblemau a chynnig datrysiadau. e.e. yn ystod 2013 comisiynwyd Arolwg o ofynion ac ymarfer Cyngor Gwynedd wrth ddarparu Gwasanaethau Gofal (Preswyl a Nyrsio), a Gofal Cartref gan Y Ganolfan Cynllunio Iaith, Mawrth 2013): Mae'r Adran yn y broses o weithredu ar argymhellion yr adroddiadau yma.</p> <p>Byddwn yn ail-ystyried y gofyn am unrhyw hapwiriad gyffredinol o'n gwasanaethau fel rhan o'r broses o lunio Rhaglen Waith Interim fydd yn weithredol tan i'r Safonau Iaith ddod i rym</p>
<p>Darparwch ddiweddariad ar y rhaglen e-ddysgu yn yr adroddiad monitro nesaf, os gwelwch yn dda</p>	<p>Fel rhan o Adroddiad Monitro Blynyddol 2013/14</p>	<p>Byddwn yn adrodd ar y sylw yma fel rhan o'n Hadroddiad Monitro Blynyddol 2013/14</p>

Gwasanaethau rheng flaen

SYLWADAU'R COMISIYNYDD	DULL YMATEB	YMATEB CYNGOR GWYNEDD
Nodwch nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn y prif dderbynfeydd, os gwelwch yn dda	Darparu gwybodaeth bellach i Gomisiynydd y Gymraeg	Lleolir Prif Dderbynfeydd y Cyngor yn y Pencadlys, Penrallt (Caernarfon), Neuadd y Dref (Bangor), Siop Gwynedd, Ffordd y Cob (Pwllheli) a Penarlâg (Dolgellau). <ul style="list-style-type: none">• Cyfanswm staff y derbynfeydd yw 13• Mae 13 ohonynt yn siarad Cymraeg (100%)• Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'r 13 swydd (100%) [Ni chyflwynwyd y wybodaeth yma'n llawn yn ein Hadroddiad Monitro]

Rheoli a gweinyddu'r Cynllun

SYLWADAU'R COMISIYNYDD	DULL YMATEB	YMATEB CYNGOR GWYNEDD
<p>Yn sgil un gwyn, nodir y bydd yr Adran Economi a Chymuned yn ystyried sut i wella amodau ieithyddol grantiau. Hoffem drafod hyn ymhellach yn ein cyfarfod adborth</p>	<p>I'w drafod yn y cyfarfod adborth rhwng y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith a Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg</p>	<p>Roedd y gwyn gwreiddiol ynghylch ein gallu ni fel Cyngor i orfodi enwau Cymraeg ar fusnesau os oeddynt yn derbyn grant. Nodwyd na fyddai'n bosib i ni wneud hyn yn gyfreithiol.</p> <p>Cydnabuwyd fodd bynnag, fod angen adolygu ein telerau er mwyn cryfhau'r elfen ieithyddol drwy hyrwyddo'r iaith hyd orau ein gallu</p> <p>Mae'r grant sydd dan sylw a nifer o brosiectau eraill un ai wedi eu dyrannu'n llawn, neu ar fin dod i ben. Mae'r Adran Economi a Chymuned yn aros am arweiniad pellach gan y Comisiwn Ewropeaidd ynglŷn â phrosiectau newydd.</p> <p>Yn y cyfamser, ceir trafodaethau cychwynnol ar sut i sicrhau a/neu wella amodau ieithyddol mewn unrhyw grantiau at y dyfodol</p>

SYLWADAU'R COMISIYNYDD	DULL YMATEB	YMATEB CYNGOR GWYNEDD
<p>Pa gamau mae'r Cyngor yn eu cymryd i fynd i'r afael a'r cyrff nad ydynt yn cydymffurfio [a chontractau Gofal Cymdeithasol? Hoffem drafod hyn ymhellach yn ein cyfarfod adborth</p>	<p>I'w drafod yn y cyfarfod adborth rhwng y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith a Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg</p>	<p>Lle bo pryderon ynglŷn â chydymffurfiaeth, mae trefn monitro ansawdd a chydymffurfiaeth gytundebol yn sicrhau bod cynllun gweithredu/gwella yn cael ei lunio. Disgwylir i unrhyw gwmni neu fudiad weithredu i gyfarch yr hyn sydd wedi ei gytuno yn y cynllun gwella. Er enghraifft gall hyn olygu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mynychu hyfforddiant ieithyddol rhad ac am ddim trwy Bartneriaeth Gweithlu Gwynedd, • anogaeth a tharged i recriwtio staff dwyieithog o fewn amserlen benodedig, • sicrhau bod nifer staff digonol sydd yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg yn gweithio ar bob shift mewn cartref gofal. • sicrhau gweithwyr gofal cartref sydd yn gallu cyfarch anghenion ieithyddol defnyddwyr gwasanaeth -mae hyn digwydd wrth i weithwyr cymdeithasol nodi anghenion ieithyddol defnyddwyr ar gynllun gofal. • Mae Gwasanaethau Cymdeithasol wedi codi ymwybyddiaeth ieithyddol ymysg darparwyr drwy gomisiynu darn o waith gan Y Ganolfan Cynllunio Iaith i edrych ar ein hymarfer ac awgrymu unrhyw welliant. • Cryfhau cymalau o fewn ein cytundebau mewn perthynas ag anghenion ieithyddol defnyddwyr gwasanaeth fel ymateb i argymhellion Y Ganolfan Cynllunio Iaith.

Sgiliau Iaith Gymraeg

SYLWADAU'R COMISIYNYDD	DULL YMATEB	YMATEB CYNGOR GWYNEDD
<p>Cyfeirir at y fframwaith [Fframwaith Iaith] yn Adroddiad Gwella Blynyddol y Cyngor (Ebrill 2013). Pryd y cyflwynir y fframwaith diwygiedig?</p>	<p>Darparu gwybodaeth bellach i Gomisiynydd y Gymraeg</p>	<p>Yng ngoleuni dyfodiad y Safonau Iaith a'r gofyn i lunio Rhaglen Waith dros dro i gyfarch y cyfnod rhwng diwedd y Cynllun presennol a gweithredu'r Safonau, byddwn yn ail-edrych ar ein cynlluniau yn y maes yma. Wrth gychwyn ar y gwaith yma byddwn yn gwerthfawrogi trafodaethau pellach gyda Swyddfa'r Comisiynydd.</p>
<p>Cymerodd y Cyngor ran mewn peilot i brofi'r Dangosyddion Iaith a gyflwynwyd yn ddiweddar gan CBAC er mwyn hwyluso mesur sgiliau iaith yn y gweithle. Hoffem drafod hyn yn ein cyfarfod adborth</p>	<p>I'w drafod yn y cyfarfod adborth rhwng y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith a Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg</p>	<p>Ymgwymerodd 37 aelod staff a'r peilot. Mae'r Swyddog Datblygu Gweithlu wedi hysbysu Swyddogion Personél y Cyngor o fanteision defnyddio'r teclyn i bennu sgiliau ieithyddol fel rhan o'r broses penodi</p>
<p>Sawl aelod o staff a dderbyniodd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn ystod y cyfnod adrodd?</p>	<p>Darparu gwybodaeth bellach i Gomisiynydd y Gymraeg</p>	<p>Darparwyd sesiwn Ymwybyddiaeth iaith benodol i 20 o staff y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid ym Mehefin 2012. Yn ystod y cyfnod Mai 2012- Medi 2013 darparwyd sesiwn ar Ymwybyddiaeth Iaith i 143 o staff fel rhan o'r broses anwytho.</p> <p>Ym mis Tachwedd 2013, byddwn yn cynnig sesiwn Ymwybyddiaeth iaith i Aelodau etholedig.</p>

SYLWADAU'R COMISIYNYDD	DULL YMATEB	YMATEB CYNGOR GWYNEDD
<p>Sut mae'r Cyngor yn cefnogi'r aelodau staff hyn [staff Di-Gymraeg], er enghraifft trwy eu targedu ar gyfer hyfforddiant Cymraeg?</p>	<p>Darparu gwybodaeth bellach i Gomisiynydd y Gymraeg</p>	<p>Gofynnir i Reolwyr llinell adnabod anghenion ieithyddol drwy'r broses Adolygu Perfformiad, yna caiff staff eu cyfeirio at y Swyddog Datblygu Gweithlu er mwyn asesu'r lefel iaith a'r anghenion dysgu. Yn dilyn hyn, bydd y Cyngor yn gallu cynnig y canlynol yn ôl yr angen:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwersi ar y lefel addas i'r dysgwr • Cyrsiau allanol • Mentoriaid iaith • Monitro cynnydd (yn seiliedig ar 2 adroddiad y flwyddyn gan y Rheolwr llinell) • Cefnogaeth drwy wobrwyo dysgwr sy'n dechrau dysgu, a rhai mwy profiadol, am ymdrechion arbennig yng nghyfarfod <i>Y Cyngor ar ei Orau</i> gyda <i>Gwobr Goffa Dafydd Orwig</i>. Rhoddir proffil uchel i'r digwyddiad yma • Cofnodi unrhyw lwyddiannau penodol e.e. gwobrau gan ddarparwyr allanol yng nghylchgrawn <i>Gair o Gyngor</i> i staff

CYFARFOD:	IS-BWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	10 HYDREF 2013
TEITL:	CYNLLUNIO A'R IAITH GYMRAEG
AWDUR:	ALED DAVIES, PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO
PWRPAS YR ADRODDIAD	CYFLWYNO GWYBODAETH AM SUT RODDIR SYLW I'R IAITH GYMRAEG A DIWYLLIANT OCHR YN OCHR A: <ul style="list-style-type: none"> • CHEISIADAU CYNLLUNIO; • PHARATOI'R CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD

1 Cyflwyniad

- 1.1 Gofynwyd i Wasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd yr Adran Rheoleiddio i gyflwyno adroddiad i'r Is-Bwyllgor er mwyn codi ei ymwybyddiaeth o sut mae'r system gynllunio defnyddio tir yn rhoi sylw i'r iaith Gymraeg a diwylliant ar lefel leol. Rhennir yr adroddiad yma i ddwy ran, gyda:

Rhan 1 yn cyfeirio at y cyd-destun polisi cynllunio presennol a sut caiff ei gymhwyso; a

Rhan 2 yn cyfeirio at sut mae'r iaith Gymraeg yn cael sylw wrth ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

2 Rhan 1 – y cyd-destun presennol a sut caiff ei gymhwyso

Y cyd-destun polisi cynllunio presennol

- 2.1 Mae'n rhaid gwneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio'n unol a'r cynllun datblygu oni bod ystyriaethau cynllunio perthnasol yn dweud fel arall. Hwn yw'r prawf statudol. Mae ystyriaethau cynllunio perthnasol yn cynnwys Polisi Cynllunio Cymru a Nodiadau Cyngor Technegol. Mae'n rhaid i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad ddod i gasgliad clir a rhesymedig ynglyn a faint o bwysau i'w roi ar ystyriaeth cynllunio perthnasol.
- 2.2 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (2009) (CDU) yw'r cynllun datblygu perthnasol. Gellir ei weld yn: www.gwynedd.gov.uk/cdu
- 2.3 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu cyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol sy'n egluro polisiau perthnasol yn y CDU. Nid yw'r Canllawiau yn ddogfennau sy'n creu polisi. Mae Canllaw Cynllunio Atodol: Cynllunio a'r iaith Gymraeg yn rhoi arweiniad am sut i gymhwyso Polisi A2 y CDU. Gellir ei weld yn: <http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1178/ccacynllunioariaithgymraeg.pdf>
- 2.4 Mae Polisi Cynllunio Cymru (2012) yn cynnwys polisiau defnydd tir Llywodraeth Cymru. Mae'r ddogfen, ynghyd â'r canllawiau cefnogol yn Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20 ar yr iaith Gymraeg (2000), yn datgan y bydd lles yr iaith i'r dyfodol yn dibynnu ar ystod eang o ffactorau, yn enwedig addysg, newid

demograffig, gweithgareddau cymunedol a sylfaen economaidd gadarn i gynnal cymunedau cynaliadwy ffyniannus (paragraff 4.13.1 Polisi Cynllunio Cymru). Dylai'r system cynllunio defnydd tir hefyd ystyried anghenion a diddordebau'r iaith Gymraeg ac wrth wneud hynny, cyfrannu at ei lles. Serch hynny, mae TAN 20 yn datgan hefyd na ddylai polisiâu cynllunio geisio cyflwyno unrhyw elfen o wahaniaethu rhwng unigolion ar sail eu gallu ieithyddol. Ni ddylai'r polisi cynllunio geisio rheoli meddiannaeth tai am resymau ieithyddol (paragraff 9, TAN 20).


- 2.5 Rhaid cofio fod delio gyda cheisiadau cynllunio'n cynnwys yr angen i roi ystyriaeth i nifer helaeth o ystyriaethau cynllunio gwahanol, ac y bydd y pwysau a roddir i'r ystyriaethau hynny'n amrywio o gais i gais. Os yw'r asesiad o'r cynllun datblygu a'r asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol yn dod i'r un casgliad gellir un ai caniatáu neu wrthod y cais yn unol a hynny. Mewn rhai achosion fe all yr asesiadau ddod i gasgliad gwahanol. O gofio'r prawf statudol, pan fydd gwrthdaro rhwng yr asesiad o'r cynllun datblygu a'r asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol fe fydd angen dod i gasgliad clir a rhesymedig os yw'r pwysau'n ddigonol i orbwysu'r cynllun datblygu a'i pheidio.

Paratoi'r Cynllun Datblygu Unedol

- 2.6 Bwriad y Strategaeth yw annog a hwyluso datblygiad sy'n diwallu anghenion cymunedau mewn modd cynaliadwy. Nid oedd rhaid cynnal Arfarniad Cynaliadwyedd ffurfiol nac Asesiad Effaith Ieithyddol ffurfiol o'r CDU. Er hynny fe ddaru tystiolaeth am nodweddion ac agweddau cymdeithasol yr ardaloedd o fewn Gwynedd ddylanwadu ar ddatblygiad polisiâu'r CDU. Er enghraifft, edrychwyd ar batrwm prynu tai a bodolaeth tai haf/ gwyliau er mwyn penderfynu pa aneddeleoedd allai ymdopi orau gyda datblygiad tai marchnad agored. Lle roedd mwy o risg y byddai tai newydd yn cael eu meddianu gan ddyfodiaid di-Gymraeg neu gael eu defnyddio fel tai haf/ gwyliau, ni ddynodwyd tir ar gyfer tai marchnad agored mewn aneddeleoedd fel Abersoch, Llanbedrog, Clynnog.

Cymhwyso Polisi A2 a Canllawiau Cynllunio Atodol: Cynllunio a'r iaith Gymraeg

- 2.7 Mae'r siart nesaf yn dangos y broses y gweithredir gan y Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd wrth ddelio gyda cheisiadau cynllunio:



3 Rhan 2 – paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLI ar y Cyd)

Y cyd-destun

- 3.1 Mae'n rhaid mynd trwy sawl cam statudol cyn y gellir mabwysiadu'r CDLI ar y Cyd. Mae'r Cytundeb Cyflawni'n rhoi manylion ynglyn a sut bwriedir mynd trwy'r camau a phryd. Gellir gweld y Cytundeb Cyflawni ar wefan y Cyngor http://www.gwynedd.gov.uk/gwy_doc.asp?cat=7073&doc=26553&Language=2 Mae'r tabl yn Atodiad A i'r adroddiad yma'n dangos y prif gamau a beth yw'r amserlen cyfredol ar gyfer cyrraedd y camau unigol. Mae'r print bras yn dangos lle rydym ni ar hyn o bryd, h.y. yn gweithio tuag at gyhoeddi'r Cynllun Adnau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Mai 2014.
- 3.2 Mae prawf cadernid C2, fydd Arolygydd y CDLI ar y Cyd yn rhoi sylw iddo, yn dweud y dylai'r gwaith o baratoi cynllun datblygu lleol ystyried polisi cenedlaethol.
- 3.3 Fe gyhoeddwyd drafft diwygiedig o TAN 20 yn 2011 ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. 'Roedd hwnnw'n cyfeirio at yr angen i gynlluniau datblygu lleol fod yn destun Asesiad Effaith Iaith Gymraeg ac na fyddai'n angenrheidiol gwneud asesiad adeg cyflwyno cais cynllunio. Dyweder ar hyn o bryd y caiff y TAN 20 terfynol ei gyhoeddi yn ystod mis Hydref 2013.

Sut roddir ystyriaeth i'r iaith Gymraeg wrth baratoi'r CDLI ar y Cyd?

Yr Arfarniad Cynaliadwyedd

- 3.4 Mae'n rhaid i'r CDLI ar y Cyd ofalu fod y datblygiadau'n gynaliadwy yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol. Er mwyn gwneud hynny mae Deddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol 2004 yn dweud bod rhaid i'r CDLI ar y Cyd fod yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) ac i adrodd am ganfyddiadau'r gwaith yma trwy gydol y broses o baratoi'r Cynllun.
- 3.5 Bydd y CDLI ar y Cyd yn ymwneud a materion ieithyddol a diwylliannol, materion cydraddoldeb a materion iechyd. Bydd y broses AC yn asesu effaith y CDLI ar y Cyd ar y materion yma.
- 3.6 Mae'r broses AC yn golygu sefydlu Fframwaith AC sy'n golygu datblygu amcanion a dangosyddion cynaliadwyedd. Defnyddir y Fframwaith AC fel amcanion i adnabod, disgrifio a gwerthuso yn systematig effeithiau cadarnhaol a negyddol cynllun neu raglen. Mae'r amcanion hyn yn wahanol i amcanion y cynllun, er fe fyddant yn aml yn gorgyffwrdd. Mae'r Fframwaith AC hyd yma'n adnabod 11 o amcanion sy'n ymdrin ag agweddau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd-gymdeithasol. Cefnogir pob amcan cynaliadwyedd gan nifer o is-amcanion fydd yn hwyluso asesiad polisiâu a chynigion y CDLI ar y Cyd ac yn helpu gyda dehongli'r prif amcan cyffredinol. Mae set o ddangosyddion arfaethedig hefyd wedi eu llunio i fonitro perfformiad y CDLI ar y Cyd, ac mae'r rhain wedi eu cynnwys yn y fframwaith. Dewiswyd y dangosyddion hyn i ganolbwyntio ar y materion allweddol sy'n codi. Mae'r elfen yma o'r broses AC wedi cydnabod arwyddocâd yr iaith Gymraeg ym mywydau pobl a phlant yn ardal y CDLI ar y Cyd. Mae'r tabl isod yn nodi'r amcan cynaliadwyedd perthnasol. Gellir gweld Adroddiad AC Cychwynnol sy'n cynnwys y Fframwaith AC drafft ar wefan y Cyngor yn:

http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1179/ac_aas_opt.pdf

**4. Gwarchod, hyrwyddo a gwella'r profiad o'r iaith Gymraeg
(Pynciau AAS: Treftadaeth Ddiwylliannol)**

A fydd y cynllun yn...

- Gwarchod a gwella'r cyfleoedd i hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg

Dangosyddion Arfaethedig:

- Nifer / % y siaradwyr Cymraeg

- 3.7 Caiff yr agwedd yma o'r broses AC ei fwydo gan wybodaeth ddaw i law yn sgil gwneud Asesiad Effaith Ieithyddol ar adegau allweddol yn y broses o baratoi'r CDLI ar y Cyd.

Yr Asesiad Effaith Ieithyddol (AEI)

- 3.8 Mae'r AEI o'r Cynllun yn broses ailadroddus ac y bydd angen adolygu'r asesiad pan fo agweddau o'r Cynllun yn newid wrth symud tuag at greu Cynllun Adnau. Mae Adroddiad Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg (Mai 2013) yn disgrifio'r fethodoleg a ddefnyddir, yn cofnodi tystiolaeth ystadegol hyd yma, ac yn cofnodi casgliadau'r asesiad hyd yma. Gellir gweld y ddogfen yma trwy glicio ar y canlynol:

http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1183/1_asesiad_effaith_ar_yr_iaith_gymraeg.pdf Gan fod y broses yn un ailadroddus a chan fydd y sail dystiolaeth yn datblygu fe fydd y ddogfen yn cael ei newid dros y misoedd nesaf.

- 3.9 Mae'r tabl nesaf yn crynhoi'r broses gaiff ei ddilyn:

CAMAU ALLWEDDOL Y BROSES ASESU	SYLWADAU
<pre> graph TD A[Dadansoddiad Gwaelodlin yr Iaith Gymraeg] --> B[Sefyllfa Bresennol yr Iaith Gymraeg] A --> C[Datblygiadau / Newidiadau Cynllunio wedi'u Monitro] B --> D[Newidiadau Ieithyddol dros Gyfnodau Penodol] C --> D D --> E[Dadansoddiad Ar Draws Tablau] E --> F[Tynnu Sylw at y Prif Faterion sy'n codi o'r Dadansoddiad Gwaelodlin] F --> G[Asesiad Effaith Ieithyddol y Strategaeth a Ffafrir] G --> H[Asesiad o'r Safleoedd Arfaethedig wedi'u Dethol yn erbyn Meini Prawf Penodol] H --> I[Asesiad Effaith Ieithyddol y Cynllun Adnau] </pre>	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Casglu data sy'n ymdrin â'r pum thema a amlinellir yn <i>Cynllunio a'r Iaith Gymraeg</i> (2005) – profiliau lefel Ward a LHMA. Bydd y rhain yn ffurfio'r sail gwneud penderfyniadau yn yr asesiad. ▪ Casglu data am ddatblygiadau wedi'u monitro, e.e. nifer y tai a adeiladwyd. ▪ Bydd dadansoddi tueddiadau yn dangos sut mae gyrwyr newid posib wedi datblygu dros amser. ▪ Bydd asesu'r data ar draws tablau fel rhan o'r dadansoddiad gwaelodlin yn dangos y berthynas rhwng newidynnau. ▪ Adnabod y prif faterion sy'n codi o ddadansoddiad o'r waelodlin. ▪ Asesiad ansoddol yn seiliedig ar ddadansoddiad goddrychol gan ddefnyddio 18 maen prawf a bennwyd ymlaen llaw. ▪ Asesu safleoedd gan ddefnyddio 12 cwestiwn sy'n seiliedig ar feini prawf fel sail gwneud penderfyniadau. Diystyrir safleoedd y pennir eu bod yn debygol o gael effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg yn seiliedig ar ddadansoddiad goddrychol gan ddefnyddio data meintiol. ▪ Asesiad ansoddol yn seiliedig ar ddadansoddiad goddrychol gan ddefnyddio 18 maen prawf a bennwyd ymlaen llaw.

3.10 Mae Atodiad 5 o'r Adroddiad Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg (Mai 2013) yn cofnodi casgliadau'r asesiad o'r Hoff Strategaeth drafft. Defnyddiwyd y cwestiynau a welir yn Atodiad B i'r adroddiad yma i hwyluso'r asesiad:

Y gwaith hyd yma - y ddogfen Hoff Strategaeth (Mai 2013)

- 3.11 Mae'r ddogfen Hoff Strategaeth (Mai 2013) a fuodd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus tan 27 Mehefin 2013 yn rhoi'r weledigaeth a'r amcanion strategol sy'n angor i strategaeth y CDLI ar y Cyd. Mae'r strategaeth yn anelu i gyflawni 4 allbwn strategol. Caiff y strategaeth ei wireddu trwy weithredu cyfres o bolisiau strategol, polisiau manwl a chynigion manwl. Gellir gweld y polisiau strategol cyfredol yn y ddogfen Hoff Strategaeth a bydd y Cynllun Adnau'n cynnwys y polisiau manwl a'r cynigion manwl. Gellir gweld y ddogfen Hoff Strategaeth ar wefan y Cyngor yn:
http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1182/hoff_strategaeth_mai_20131.pdf. Mae Atodiad C yn cynnwys copi o'r weledigaeth, yr amcanion strategol perthnasol, a Pholisi Strategol am yr iaith Gymraeg. Fodd bynnag, os edrychir ar weddill y Polisiau Strategol fe welir cyfres o bolisiau sy'n mynd i hwyluso'r isadeiledd mae cymunedau bywiog eu hangen: mathau o dai amrywiol; cyfleon cyflogaeth priodol sy'n hygyrch; cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol sy'n hygyrch.

Y dystiolaeth a'i ddatblygiad

- 3.12 Mae Atodiad 2 ac Atodiad 4 o'r Adroddiad Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg (Mai 2013) yn crynhoi'r sail dystiolaeth hyd yma. Ceir mwy o wybodaeth yn Papur Testun 10: Iaith Gymraeg (Mai 2013) am y cyd-destun polisi cynllunio ac mae'n rhoi trosolwg o'r sefyllfa hyd yma o ran yr iaith Gymraeg. Gellir gweld y Papur Testun ar wefan y Cyngor yn:

http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1182/Papur_Testun_10_LIA_Report_Terfynol_C_Census_2011.pdf

- 3.13 Caiff y Papur Testun ei ddiweddarau ar ol i fwy o dystiolaeth gael ei gasglu. Mae'r ffynhonnellau gwybodaeth ychwanegol yn cynnwys:
- Cyfrifiad 2011. Mae Atodiad CH i'r adroddiad yma'n rhestru tablau'r Cyfrifiad a fydd yn rhoi darlun o'r sefyllfa yn 2011;
 - Prosiect Tai ac Iaith Mae holiaduron yn cael eu gyrru allan i: (a) tai a brynwyd yn ystod 2008 – 2012 yn ward Llanrug, Clynnog, Hiracl, Diffwys a Maenofferen, De Dolgellau ac Abersoch, (b) tai sydd wedi cael eu hadeiladu yng Ngwynedd yn ystod 2007 – 2012. Pwrpas yr holiaduron ydy cael darlun o'r aelwydydd ac wedyn gweld os oes cyd-berthynas rhwng hynny a sefyllfa'r iaith Gymraeg. Mae'r Prosiect yma'n rhan o brosiect ehangach o dan Gynllun Strategol y Cyngor;
 - Prosiect Tai Marchnad Lleol Mae'r prosiect yma'n edrych am, ac yn dadansoddi, tystiolaeth i weld os ellir cyfiawnhau polisi a fyddai'n hyrwyddo tai a fyddai'n diwallu anghenion penodol lleol am dai ar y farchnad agored. Gallai'r math yma o dai, ynghyd ag isadeiledd arall, alluogi trigolion i aros mewn cymunedau gwledig penodol.
 - Defnydd o'r iaith mewn ysgolion cynradd sef tystiolaeth am safon disgyblion; iaith a ddefnyddir amser chwarae ac ati; iaith cyfarfodydd Llywodraethwyr
 - Gweithredu'n lleol sef teclyn a gafodd ei ddatblygu gan Bwrdd yr Iaith Gymraeg i gynnal ymchwil i gael darlun o natur ardal: gwybodaeth am nodweddion ac agweddau cymdeithasol; mesur hyfywedd y Gymraeg yn lleol o ran ei statws gweledol, y defnydd llafar a wneir o'r Gymraeg a'r gwerth a roddir ar y Gymraeg gan drigolion. Mapio gwybodaeth ar lefel sirol a derbyn gwybodaeth gan gymunedau sydd wedi defnyddio'r teclyn yn lleol.

4 Camau nesaf

- Hyd nes caiff y CDLI ar y Cyd ei fabwysiadu, parhau i weithredu yn unol a'r cyd-destun polisi cynllunio cyfredol sef CDU Gwynedd, Canllawiau Cynllunio Atodol, Polisi Cynllunio Cymru, TAN 20.
- Dadansoddi a chymhwyso cynnwys y TAN20 pan gaiff ei gyhoeddi.
- Cydweithio gydag awdurdodau eraill
- Dod a'r wybodaeth o'r gwaith ymchwil gyfeirwyd ato yn 3 uchod at ei gilydd, a pharhau i ddatblygu tystiolaeth ar gyfer polisiau'r CDLI ar y Cyd a fydd yn y pen draw'n disodli'r CDU.
- Adrodd i'r Panel CDLI ar y Cyd am ddatblygiad polisiau amrywiol a fydd yn hyrwyddo datblygiad yr isadeiledd cymunedol sydd ei angen i gynnal cymunedau bywiog rhwng Hydref 2013 a Ionawr 2014
- Adrodd i Gabinet Cyngor Gwynedd am y Cynllun Adnau ym mis Chwefror 2014
- Adrodd i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ym mis Mawrth 2014
- Ymgynghori am y Cynllun Adnau ym mis Mai 2014

Atodiad A**Amserlen paratoi'r CDLI ar y Cyd**

Cam yn y broses paratoi		Amserlen ddiwygiedig
1.	Paratoi a chyhoeddi'r Cytundeb Cyflawni terfynol (<i>Rheoliad 5 – 10</i>)	Ionawr – Tachwedd 2011
2.	Adolygu'r sail tystiolaeth a'i ddatblygu	Gorffennaf 2010 – Hydref 2012
3.	Cyfranogiad Cyn- adneuo – paratoi'r dogfennau cyn-adneuo a fydd yn amlinellu'r prif amcanion a'r hoff strategaeth (<i>Rheoliad 14</i>). Ni fydd hwn yn ddrafft llawn o'r CDLI ar y Cyd	Ionawr 2011 –Hydref 2012
4.	Ymgynghori Cyn-adneuo – cyfnod 6 wythnos (<i>Rheoliad 15</i>). Ymgynghoriad ffurfiol am yr Hoff Strategaeth a'r adroddiad asesiad cynladwyedd	Mai – Mehefin 2013
5.	Cyfranogiad – datblygu'r sail tystiolaeth ymhellach a pharatoi CDLI ar y Cyd Adneuo (cynllun drafft llawn) a fydd wedi selio ar y sail dystiolaeth, sy'n cynnwys yr ymateb a gafwyd i'r dogfennau Hoff Strategaeth	Gorffennaf 2013 - Mawrth 2014
6.	Rhoi'r CDLI ar y Cyd a dogfennau cysylltiol ar adnau – cyfnod ymgynghori 6 wythnos (<i>Rheoliad 17</i>)	Mai – Mehefin 2014
7.	Ystyried sylwadau am y CDLI ar y Cyd Adnau (<i>Rheoliad 18 & 19</i>)	Gorffennaf 2014 – Ionawr 2015
8.	Cyhoeddi sylwadau am safleoedd amgen, ymgynghori amdanynt – cyfnod 6 wythnos (<i>Rheoliadau 20 & 21</i>)	Medi – Hydref 2014
9.	Cyflwyno'r CDLI ar y Cyd i Lywodraeth Cymru ar gyfer Archwiliad (<i>Rheoliad 22</i>)	Chwefror 2015
10.	Archwiliad Cyhoeddus Annibynnol (<i>Rheoliad 23</i>)	Mehefin 2015
11.	Cyhoeddiad Adroddiad yr Arolygydd (<i>Rheoliad 24</i>)	Mawrth 2016
12.	Mabwysiadu'r CDLI ar y Cyd (<i>Rheoliad 25</i>)	Mai 2016
13.	Monitro ac Adolygu	Adroddiad blynyddol

Atodiad B Cwestiynau ofynwyd i asesu datblygiad y ddogfen Hoff Strategaeth

**ASESIAD ARDRAWIAD IEITHYDDOL O 1) YR OPSIYNAU / STRATEGAETH
A FFEFRIR A 2) DRAFFT ADNEUO**

- i) A yw'r polisi / cynllun / rhaglen yn debygol o arwain at gynnydd / lleihad yn y boblogaeth a allai i) effeithio ar y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg / Saesneg neu ii) arwain at ddirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg?
- ii) A yw'r polisi / cynllun / rhaglen yn debygol o arwain at fwy o fewnfudo?
- iii) A yw'r polisi / cynllun / rhaglen yn debygol o arwain at fwy o allfudo? A yw'r broses o allfudo yn debygol o arwain at golli aelwydydd di Gymraeg?
- iv) A yw'r polisi / cynllun / rhaglen yn debygol o arwain at newid strwythur oed y gymuned?
- v) A yw'r polisi / cynllun /rhaglen yn debygol o gael effaith ar iechyd pobl leol?
- vi) A yw'r polisi / cynllun /rhaglen yn debygol o gael effaith ar fwynder yr ardal leol?
- vii) A yw'r polisi / cynllun / rhaglen yn debygol o arwain at y bygythiad o fwy o droseddu neu drais yn y gymuned?
- viii) A yw'r polisi / cynllun / rhaglen yn debygol o gael effaith andwyol ar fusnesau lleol?
- ix) A yw'r polisi / cynllun / rhaglen yn debygol o gael effaith andwyol ar swyddi lleol?
- x) A yw'r polisi / cynllun / rhaglen yn debygol o arwain at fwy o amrywiaeth economaidd?
- xi) A yw'r polisi / cynllun / rhaglen yn debygol o gael effaith ar lefelau cyflog lleol?
- xii) A yw'r polisi / cynllun /rhaglen yn debygol o gael effaith ar bris cyfartalog tai?

- xiii) A yw'r polisi / cynllun / rhaglen yn debygol o gael effaith ar ysgolion lleol?
- xiv) A yw'r polisi / cynllun / rhaglen yn debygol o gael effaith ar wasanaethau gofal iechyd?
- xv) A yw'r polisi / cynllun / rhaglen yn debygol o gael effaith ar ddarparu gwasanaethau lleol?
- xvi) A oes gan y polisi / cynllun / rhaglen botensial i arwain at densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau difrifol o fewn y gymuned Cymraeg ei hiaith?
- xvii) A oes gan y polisi / cynllun / rhaglen y potensial i arwain at newidiadau i'r traddodiadau / diwylliant Cymreig lleol?
- xviii) A oes gan y polisi / cynllun / rhaglen botensial i gael effaith ar grwpiau gwirfoddol / gweithgarwch / ieuenctid lleol?

Atodiad C Darnau allan o'r ddogfen Hoff Strategaeth (2013)

Gweledigaeth y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

Erbyn 2026, bydd Ynys Môn a Gwynedd yn cael eu cydnabod am eu **cymunedau ffyniannus a llawn bywyd** sy'n dathlu eu **diwylliant, treftadaeth a'u hamgylchedd** unigryw ac yn **rhywle y bydd pobl yn dewis** byw ynddynt.

Mae hyn yn golygu y bydd ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn:

- lle mae anghenion tai cymunedau lleol yr ardal yn cael eu diwallu'n well o ran cyflenwad, math, ansawdd, effeithlonrwydd ynni, lleoliad a fforddiadwyedd
- lle mae'r preswylwyr a busnesau'n gallu achub ar y cyfleoedd economaidd newydd i ffynnu
- sy'n brolio gweithlu medrus priodol ac economi amrywiol, eang, gynaliadwy gyda chysylltiadau da sy'n gwneud y defnydd gorau o gryfderau lleol a chyfleoedd lle mae'r manteision sy'n deillio ohonynt yn aros yn lleol
- sy'n gartref i rwydweithiau egniol o gymunedau cynhwysol lle mae'r preswylwyr yn mwynhau iechyd a lles da
- lle mae'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o gymunedau
- sy'n addasu ac yn ymateb yn gadarnhaol i'r sialensiau a gyflwynir gan y newid hinsawdd
- lle mae cymeriad unigryw ei threftadaeth adeiledig a diwylliannol, ei chefn gwlad a'i thirwedd, a'i hamgylchedd, yn cael ei werthfawrogi, ei warchod a'i wella
- lle mae pobl eisiau byw, gweithio ac ymweld â hi

Rhai o amcanion y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

SO1	sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy,
SO2	darparu ar gyfer cyflenwad tai cytbwys gan sicrhau bod yr holl stoc dai o safon dda, yn fforddiadwy, ac yn darparu ar gyfer gwahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth
SO3	sicrhau poblogaeth sefydlog a chytbwys mewn cymunedau

SO5	sicrhau bod aneddiadau yn gynaliadwy, yn hygyrch ac yn diwallu'r holl anghenion sydd gan eu cymunedau
SO7	sicrhau bod cyflenwad digonol o dir ac adeiladau yn cael ei ddiogelu a'i ddyrannu mewn lleoliadau cynaliadwy i ddenu buddsoddiad ac i gadw a chynyddu nifer y swyddi brodorol, cefnogi datblygu gweithgarwch economaidd mewn sectorau â gwerth uwch, sicrhau cyfleoedd i wella sgiliau ac addysg y gweithle, a hyrwyddo gweithio o adref lle bo hynny'n briodol
SO8	arallgyfeirio economi wledig a threfol ardal y CDLI ar y Cyd er mwyn hwyluso economi gymysg a ffyniannus sy'n adeiladu ar gyfleoedd, gan gynnwys y rhai a gyflwynir gan y sectorau ynni adnewyddadwy a charbon isel a'r diwydiannau gwybodaeth
SO24	diogelu a chryfhau'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig a hyrwyddo ei defnyddio fel rhan hanfodol o fywyd y gymuned

Polisi Strategol PS19 Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig

Bydd y Cynghorau'n hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy:

- 1. Ddefnyddio mecanwaith priodol i sicrhau bod mesurau lliniaru effeithiau negyddol addas yn cael eu darparu neu y gwneir cyfraniad iddynt;**
- 2. Wrthod datblygiad fyddai, oherwydd ei faint, raddfa neu leoliad yn achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned;**
- 3. Annog bod yr holl arwyddion gan gyrrff cyhoeddus a chwmnïau masnachol a busnes yn ddwyieithog;**
- 4. Annog defnyddio enwau lleoedd Cymraeg ar gyfer datblygiadau newydd, enwau tai a strydoedd.**

Atodiad CH Tablau perthnasol yng Nghyfrifiad 2011

Rhestr rhyddhau	Math	2011 Enw'r tabl (Saesneg yn unig)
Third release	Detailed Characteristics	Family type by Welsh language; families; adults; children
Third release	Detailed Characteristics	Sex by age and ability in Welsh
Third release	Detailed Characteristics	Number of Welsh speakers by household size
Third release	Detailed Characteristics	Family type by Welsh speakers by ability to speak Welsh and age
Third release	Detailed Characteristics	Extended Welsh household composition by ability to speak Welsh and age
Third release	Detailed Characteristics	Extended Welsh household composition by Welsh speaking adults by age of youngest dependent child
Third release	Detailed Characteristics	Household Reference Person's (HRP's) NS-SeC and HRP's approximated social grade by dependent children speaking Welsh by Welsh speaking households
Third release	Detailed Characteristics	National identity by sex, age and ability to speak Welsh
Third release	Detailed Characteristics	Sex and age by country of birth and knowledge of Welsh
Third release	Detailed Characteristics	Age of Household Reference Person (HRP) and tenure by knowledge of Welsh of Household Reference Person (HRP)
Third release	Detailed Characteristics	Sex and age and long-term health problem or disability and general health by knowledge of Welsh
Third release	Detailed Characteristics	Sex and occupation by knowledge of Welsh
Third release	Detailed Characteristics	Welsh speakers and economic activity and year last worked by age
Third release	Detailed Characteristics	Sex and industry by knowledge of Welsh
Third release	Detailed Characteristics	Sex and NS-SeC by knowledge of Welsh
Third release	Detailed Characteristics	Age and highest level of qualification by knowledge of Welsh
Third release	Detailed Characteristics	Children speaking Welsh in Welsh speaking households
Third release	Detailed Characteristics	Welsh speaking adults in households by age of youngest dependent child
Third release	Detailed Characteristics	Type of Communal establishment by knowledge of Welsh
Third release	Detailed Characteristics	Age of Household Reference Person (HRP) and tenure by ability to speak Welsh of HRP
Third release	Detailed Characteristics	Type of Communal establishment by ability to speak Welsh
Third release	Theme	Theme table on main language
Third release	Theme	Theme table on households with Welsh speakers
Third release	Theme	Theme table on persons in households with Welsh speakers
Third release	Theme	Theme table on persons in households who speak Welsh
Third release	Theme	Theme table on Welsh language
Third release	Theme	Theme table on ability to speak Welsh
Fourth release	Local Characteristics	Sex and age by knowledge of Welsh
Fourth release	Local Characteristics	Type of Communal establishment by knowledge of Welsh
Fourth release	Local Characteristics	Sex and age by ability to speak Welsh
Fourth release	Local Characteristics	Type of Communal establishment by ability to speak Welsh
Fourth release	Local Characteristics	Welsh-speaking ability of children age 3 to 4 only, couple household types only
Fourth release	Local Characteristics	Ability to speak Welsh by ethnic national identity
Fourth release	Local Characteristics	Ability to speak Welsh by national identity
Subsequent releases	Detailed Characteristics	Sex and knowledge of Welsh and age by migration within Wales
Subsequent releases	Detailed Characteristics	Migration of Welsh speaking households within Wales by age of HRP and presence of dependent children

Subsequent
releases

Detailed
Characteristics

Sex and ability to speak Welsh and age by migration within Wales

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	HYDREF 10 2013
TEITL:	CWYNION IAITH
AWDUR:	SWYDDOG CYDRADDOLDEB AC IAITH
PWRPAS YR ADRODDIAD	CYFLWYNO'R CWYNION DIWEDDARAF A DIWEDDARU'R IS-BWYLLGOR

CWYNION YN YMWNEUD A'R CYNGOR, PARTNERIAID NEU SEFYDLIAD TRYDYDD PARTI

DYDDIAD	CWYN	YMATEB.
Awst 2013	Swyddogion Cynllunio yn cyflwyno eu hachos mewn apêl cynllunio drwy gyfrwng y Saesneg a'r ddogfennaeth a ddarparwyd ganddyn nhw hefyd yn uniaith Saesneg	<p>Cyflwynwyd yr apêl i'r Arolygaeth Gynllunio yn y Saesneg. Ystyrir apêl ar ffurf gwrandawriad yn gyfystyr a thribiwnlys neu wrandawriad cyfreithiol, ac yn y cyd-destun yma, credir fod <i>Polisi Dwyieithrwydd Gerbron y Llysoedd</i> a weithredir gan y Cyngor yn berthnasol. Mae'r Polisi yn datgan, " bydd Cyngor Gwynedd yn ymdrin ag achosion a gychwynnir gan neu yn erbyn unigolion....yn newis iaith yr unigolion hynny, boed yn Gymraeg neu Saesneg." Mae hefyd yn datgan y "bydd y sawl sy'n cynrychioli'r Cyngor yn cyflwyno'r achos ar lafar yn iaith yr achos". O ganlyniad, cynhaliwyd y gwrandawriad yn Saesneg gyda chyfieithydd ar y pryd yn bresennol.</p> <p>Bu i'r dogfennau ysgrifenedig gan y Cyngor gael eu darparu yn y Saesneg, gan mai Saesneg oedd dewis iaith yr asiant oedd yn cyflwyno'r apêl. O safbwynt dogfennau apêl, mae'r amserlen yn dynn, ac felly maent yn cael eu darparu yn gyntaf yn yr iaith mae'r apelydd wedi ei ddewis. Credir fod lle i wella trefniadau o safbwynt y ddogfennaeth er mwyn sicrhau fod dogfennau'r Cyngor fydd ar y ffeil apêl gyhoeddus yn ddwyieithog, gan dderbyn bod oblygiadau costau mewn perthynas â chyflawni hyn</p>

DYDDIAD	CWYN	YMATEB.
Awst 2013	Cwyn gan Aelod ynglŷn ag adroddiad data gan y Gwasanaeth Trafnidiaeth a Stryd uniaith Saesneg; hwn yn rhydd i'w rannu i etholwyr, ond fersiwn Cymraeg ddim ar gael tan yn ddiweddarach	Paratowyd yr adroddiad dechreuol yn Saesneg gyda fersiwn Gymraeg ar gael yn ddiweddarach. Cylchredwyd y fersiwn Saesneg cyn yr un Gymraeg i'r aelod mewn ymgais i hwyluso trafodaeth ar faterion oedd o gryn ddiddordeb yn lleol. Mae'r Adran yn cydnabod bod y gwaith o gyfieithu a chylchredeg y fersiwn Gymraeg wedi cymryd mwy o amser nag a ddylai yn yr achos yma. Bu'r gwyn yn ysgogiad i'r Adran i sicrhau bod y fersiwn Gymraeg wedi ei chylchredeg ac i atgoffa swyddogion o'r angen i geisio cael fersiynau Cymraeg a Saesneg yn barod ar yr un pryd.
Awst 2013	Cais gan yr Adran Economi a Chymuned i newid defnydd adeilad wedi'i wneud drwy gyfrwng y Saesneg yn unig	Ymddengys y rhoddwyd y cais i mewn gan bensaer oedd yn gweithio i'r Cyngor heb ei basio i'r Adran yn gyntaf. Noder fod amserlen y cais yn dynn iawn yn ogystal. Dywed yr Adran eu bod bellach wedi cyflwyno copi Cymraeg o'r cais, a'u bod yn hyderus mai eithriad bu'r achos yma.
Medi 2013	Cwyn ynglŷn â safon ieithyddol e-bost gan y Cyngor ynglŷn â'r Gofrestr Etholwyr	Yr Adran yn anfon ymddiheuriad a fersiwn diwygiedig